



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar gynllun rheoli newydd ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd.

Dyddiad cyhoeddi: **10 Hydref 2016**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: **9 Ionawr 2017**

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynllun rheoli newydd ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd.

Lluniwyd y cynllun rheoli presennol yn 2004 ac yn ystod ei oes, cafwyd sawl datblygiad fel gwaith cadwraeth sylweddol, gosod cyfleusterau newydd i ymwelwyr a mentrau strategol ehangach fel diweddaru cynlluniau datblygu lleol ac unedol a deddfwriaeth sylfaenol newydd mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Felly, mae angen i'r cynllun rheoli newydd ymateb yn gadarnhaol i'r datblygiadau hyn a helpu i sicrhau y caiff y Safle ei reoli mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol.

Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 9 Ionawr 2017.
Gallwch ymateb drwy e-bost neu'r post.

E-bost

Anfonwch eich ymateb i'r ymgynghoriad i:

Cynllun Rheoli STB@.Wales.gsi.gov.uk.

Post

Anfonwch eich ymateb i'r ymgynghoriad at:

Alyson Evans
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
cysylltiedig**

**Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print
bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.**

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

Cynllun Rheoli STB@ Wales.gsi.gov.uk

Alyson Evans
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

01443 336045

Diogelu data

Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth y byddwch yn eu rhoi i ni

Caiff unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy. Efallai y caiff ei weld gan aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru hefyd er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Mae hyn yn ein helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych am i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, dywedwch wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu dileu.

Gallai enwau neu gyfeiriadau a ddilëir gennym gael eu cyhoeddi o hyd yn ddiweddarach, er nad ydym yn credu y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn Mae Deddf Diogelu Rhyddid 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld

gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff
cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.
Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nas
cyhoeddwyd. Fodd bynnag, mae'r gyfraith
hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o
dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn
gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn
ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu pa un
a ddylid ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun
wedi gofyn am i'w enw a'i gyfeiriad beidio â
chael eu cyhoeddi, mae hynny'n ffaith bwysig y
byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau
gallai fod rhesymau pwysig pam y byddai'n
rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er
ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi.
Byddem yn cysylltu â'r unigolyn i ofyn am ei
farn cyn gwneud penderfyniad terfynol i
ddatgelu'r wybodaeth.

Cyflwyniad

Mae Cadw'n gyfrifol am reoli Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd, sy'n cynnwys pedwar eiddo (Castell a Muriau Tref Caernarfon, Castell a Muriau Tref Conwy, a Chestyll Harlech a Biwmares).

Arysgrifwyd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte ar Restr Treftadaeth y Byd yn 1986. Mae statws Safle Treftadaeth y Byd yn cyflwyno cyfrifoldebau i fodloni gofynion Canllawiau Gweithredol UNESCO ar gyfer rhoi Confensiwn Treftadaeth y Byd ar Waith (Canllawiau Gweithredol UNESCO), yn benodol:

'Each nominated property should have an appropriate management plan or other documented management system which should specify how the outstanding universal value of a property should be preserved, preferably through participatory means.'

Lluniwyd y cynllun rheoli presennol yn 2004 ac roedd disgwyl i'w gynllun gweithredu cysylltiedig weithredu am ddeng mlynedd. Yn ystod ei oes, mae sawl cam gweithredu sylweddol wedi'u rhoi ar waith yn cynnwys gwaith cadwraeth sylweddol, gosod cyfleusterau newydd i ymwelwyr a deunydd dehongli newydd. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd sawl datblygiad strategol ehangach, er enghraifft gwnaed gwaith ar gynlluniau datblygu lleol ac unedol ac mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio deddfwriaeth newydd mewn perthynas â'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ystyried y datblygiadau hyn, mae'n amser adolygu'r trefniadau rheoli presennol a pharatoi cynllun hirdymor newydd a fydd yn sicrhau strategaeth a gweledigaeth glir ar gyfer y Safle.

Diben y Cynllun Rheoli

Diben Cynllun Rheoli yw darparu fframwaith cadarn ar gyfer llywio'r gwaith o reoli'r safle mewn ffordd gynhwysfawr. Caiff cynnwys Cynllun Rheoli ei reoli yn ôl nodweddion unigryw'r Safle unigol, ond er mwyn sicrhau ei fod yn cydfynd â gofynion UNESCO, dylai gynnwys disgrifiad cywir, cynhwysfawr a diwygiedig o'r safle a'i leoliad ac egluro sut y caiff ei ddiogelu. Rhaid i'r cynllun restru nodweddion allweddol y safle a'i Werth Cyffredinol Eithriadol. O hyn, gellir sefydlu prif anghenion rheoli'r safle.

Mae statws Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth berthnasol wrth bennu ceisiadau cynllunio ac, felly, mae'r Cynllun Rheoli yn gyswllt pwysig rhwng gofynion rhyngwladol UNESCO ar y naill law, a dyheadau a gofynion awdurdodau cynllunio lleol a chymunedau ar y llaw arall.

Prif rôl y Cynllun Rheoli yw nodi polisiau a chamau gweithredu a gynlluniwyd i ddiogelu, gwarchod ac felly reoli'r Safle Treftadaeth y Byd. Fodd bynnag, mae gan y Cynllun nifer o ddibenion ychwanegol yn cynnwys er enghraifft:

- Dull o helpu i ddatblygu hunaniaeth y Safle - beth mae'n ei olygu i gymunedau a rhanddeiliaid heddiw yn ogystal ag annog dealltwriaeth o'r gorffennol;
- Sicrhau dull cydlynol a chyson o reoli'r Safle a'i bedwar lleoliad, a gaiff eu cynnwys o fewn pedair ardal awdurdod cynllunio lleol gwahanol (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri);
- Rhoi ffocws er mwyn dwyn rhanddeiliaid ynghyd, gan annog y broses o ddatblygu gwaith partneriaeth effeithiol; a
- Sicrhau cylch gwaith ehangach na dim ond gwarchod a diogelu, yn cynnwys hyrwyddo a rheoli twristiaeth gynaliadwy, potensial economaidd ac adfywiol y Safle, a'i rôl mewn diwylliant ac addysg.

Ymysg rhai o'r prif newidiadau yn y cynllun rheoli drafft newydd mae:

- Mwy o ffocws ar gydweithio â phartneriaid allweddol ac ystyried y safle mewn modd ehangach a mwy cyfannol sydd yn fwriadol yn cynnwys y cymunedau yn y cyffiniau
- Atgyfnerthu trefniadau rheoli ffurfiol
- Mwy o bwyslais ar leoliad, gyda diffiniadau ategol a datganiadau o nodweddion ar gyfer pob un o'r pedair cymuned
- Mân ddiwygiadau i'r broses o fapio lleoliadau hanfodol a golygfeydd pwysig (yn enwedig ar gyfer Caernarfon a Chonwy) i gyfleu ffordd newydd o feddwl.
- Dealltwriaeth ehangach o arwyddocâd sy'n cynnwys y pedair cymuned, y gydberthynas rhwng yr henebion a'r môr, ystyriaethau diwylliannol a chyd-destun hanesyddol mwy diweddar yn cynnwys materion yn ymwneud â chenedlaetholdeb Cymreig a'r rôl y mae'r henebion wedi'i chwarae mewn digwyddiadau coffaol
- Cynnwys gweledigaeth newydd ac egwyddorion cyffredinol sy'n seiliedig ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
- Cynnwys cyd-destun polisi eang ac amcanion penodol er mwyn ategu a chefnogi'r prif gynllun gweithredu - yn cynnwys ffocws ar yr Iaith Gymraeg, profiad ymwelwyr, buddiannau economaidd ac adfywiol, ymgysylltiad cymunedol, marchnata a chynaliadwyedd
- Cynllun gweithredu manwl sy'n nodi ac yn blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn cynorthwyo'r polisiâu a'r amcanion a nodwyd
- Cynnwys fframwaith monitro er mwyn ystyried ac asesu cynnydd

Nod y rhain yw cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Mwy o gydweithio mewn partneriaeth, cefnogaeth ac effaith

- Diogelu'r Safle a'i leoliad yn barhaus yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau ar gyfer y dyfodol neu ddatblygiadau a gynlluniwyd
- Gwell ymwybyddiaeth o arwyddocâd ehangach y safle a gwell ymgysylltiad cymunedol
- Mwy o ddatblygu sgiliau a chyfleoedd dysgu gydol oes
- Cysylltiad cryf â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gallu i fesur cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant
- Gwell defnydd o statws Treftadaeth y Byd er mwyn diogelu buddiannau economaidd ac adfywiol cynaliadwy
- Ymdeimlad gwell o le ac ansawdd treflun o fewn y pedair cymuned

Cwestiynau:

Cwestiwn 1: A yw'r drafft yn glir ynghylch rôl a diben y cynllun rheoli?

Cwestiwn 2: A yw'r disgrifiad diwygiedig o'r safle a'i arwyddocâd yn ddigon er mwyn helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i ddiogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol y safle?

Cwestiwn 3: A yw'r diffiniadau o leoliad, lleoliad hanfodol, golygfeydd pwysig ac ymdeimlad o gyrraedd (Pennod 2.6) yn ddigon clir? A yw cynnwys datganiadau o nodweddion yn helpu i gefnogi ystyriaethau cynllunio a datblygu o fewn y pedair cymuned?

Cwestiwn 4: Ai'r amrywiaeth o bolisïau a amlinellwyd yw'r rhai priodol ac a ydynt yn adlewyrchu'r heriau perthnasol newydd sy'n wynebu'r Safle?

Cwestiwn 5: A oes unrhyw bolisïau, amcanion neu gamau gweithredu ar goll?

Cwestiwn 6: A yw'r dangosyddion monitro yn addas ac a fyddant yn helpu i ddarparu fframwaith cadarn er mwyn helpu i asesu'r broses o ddatblygu trefniadau rheoli?

Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

Nodwch y sylwadau yma:

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n gymwys):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma:

☐
